

Proses Apelio Ysgoloriaeth / Bwrsariaeth

Mae gan bob ymgeisydd / fyfyrwr yr hawl i wneud penderfyniadau Apêl a wneir gan y Tîm Cyngor Ariannol i Fyfirwyr ynghylch eu cymhwysedd i gael Ysgoloriaeth neu Fwrsariaeth.

Gall hyn gynnwys ymgeiswyr sy'n teimlo na allant fodloni'r meini prawf oherwydd Nodweddion Gwarchoddedig fel y'u diffinnir gan [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#).

Cofiwch fod Apeliadau yn fwyaf tebygol o lwyddo mewn achosion lle mae gan ymgeiswyr amgylchiadau esgusodol.

Ystyrir apeliadau gan y Penderfynydd Apeliadau, sy'n annibynnol ar weinyddu Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau'r Brifysgol a gynhelir gan y Tîm Cyngor Ariannol i Fyfirwyr

Y Broses Apelio

Rhaid i bob Apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig a'i chyfeirio at Apeliadau Ysgoloriaeth / Bwrsariaeth, Tîm Cyngor Ariannol i Fyfirwyr, Prifysgol De Cymru, Heol Llantwit, Trefforest, CF37 1DL. Fel arall, gallwch e-bostio eich Apêl i scholarships@southwales.ac.uk, gan nodi 'Apêl Ysgoloriaeth / Bwrsariaeth' yn y llinell bwnc.

- Ar ôl ei dderbyn, bydd eich Apêl yn cael ei throsglwyddo i'r Penderfynydd Apeliadau a fydd yn ystyried eich achos.
- Os oes angen rhagor o fanylion / tystiolaeth ar y Penderfynydd Apeliadau, yna bydd y Tîm Cyngor Ariannol i Fyfirwyr yn cysylltu â'r apelydd am y wybodaeth hon. Gall hyn gynnwys cais gan y Penderfynydd Apeliadau am dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r Apêl ac mewn rhai achosion i gasglu'r dystiolaeth a all fod gan drydydd partïon allanol.
- Unwaith y **bydd Apêl a'r holl wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani** wedi dod i law, bydd penderfyniad fel arfer yn cael ei gyfleu i'r apelydd o fewn 20 diwrnod gwaith.

Noder mai hwn yw'r penderfyniad terfynol gan y Penderfynydd Apeliadau ynglŷn â'r Apêl.

Myfyrwyr Presennol -

Cynllun Cwynion Myfyrwyr Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIA)

Os ydych chi'n teimlo bod gennych sail i gwyno am y penderfyniad hwn, bydd angen i chi ofyn am lythyr 'Cwblhau Gweithdrefnau', a fydd yn cadarnhau bod gweithdrefnau'r Brifysgol wedi dod i ben ac yn caniatáu mynediad i chi i gynllun cwynion myfyrwyr Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch

(OIA). Mae gennych **fis** o ddyddiad y llythyr hwn i ofyn am lythyr cwblhau gweithdrefnau. Gallwch ofyn am hyn trwy anfon e-bost i scholarships@southwales.ac.uk

Os na dderbyniwn unrhyw ymateb gennych o fewn mis i'r llythyr hwn, bydd y Brifysgol yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi derbyn y canlyniad.

Os byddwch yn penderfynu cwyno i'r OIA, **rhaid i'r OIA dderbyn** eich Ffurflen Gais Cynllun o fewn 12 mis i ddyddiad y llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Mae copi o Daflen yr OIA am y cynllun ar gyfer adolygu cwynion myfyrwyr ar gael yn:

<https://www.oiahe.org.uk/media/2264/intrototheoia-students-jan-2019.pdf>

Os ydych chi'n profi anawsterau ariannol; cysylltwch â'r Tîm Cyngor Ariannol i Fyfrwyr ar 01443 483778 neu money@southwales.ac.uk i drafod unrhyw opsiynau a allai fod ar gael i chi.